

Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards



Annwyl riant/gofalwr,

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y tymor hoffwn eich diweddarau ar ddatblygiadau yn yr ysgol a rhannu rhai dyddiadau allweddol gyda chi.

Gweithdrefnau Covid-19.

Efallai eich bod wedi clywed ar y newyddion bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu eu canllawiau ar weithdrefnau covid ar ôl y Pasg. Rydym yn parhau i aros am yr arweiniad hwn a byddwn yn rhannu ein bwriadau gyda chi cyn gynted ag y byddwn yn derbyn y wybodaeth hon. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau â'n gweithdrefnau presennol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- parhau â gweithdrefnau glanweithio dwylo a sychu cyn ac ar ddiwedd gwersi;
- hyrwyddo awyru trwy ffenestri a drysau agored;
- glanhawyr yn ystod y dydd ar y safle;
- cynnal ein system un ffordd;
- parhau ag egwyliu a chinio fesul cam a pharthau disgyblion.
- Bydd disgyblion yn parhau i wisgo masgiau wyneb mewn manau cyhoeddus megis coridorau oni bai bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym yn wahanol. Bydd disgyblion yn cael eu hannog i barhau i wisgo masgiau mewn gwersi.

Gofynion Gwisg Ysgol.

Fel y dywedwyd yn ein cylchlythyr blaenorol ein bwriad ar ôl y Pasg yw dychwelyd i sefyllfa lle bydd gofyn i ddisgyblion newid i'w cit Addysg Gorfforol pan fydd ganddynt wersi Addysg Gorfforol wedi'u hamserlennu neu gemau neu hyfforddiant ar ôl ysgol. Bydd hyn yn dod â'r ysgol yn unol â holl ysgolion uwchradd eraill Sir Benfro. Mae'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn yn seiliedig ar iechyd a glanweithdra disgyblion, gan sicrhau, fel y bydd, nad yw disgyblion yn aros mewn gwisg ymarfer corff a ddefnyddir am weddill y dydd yn dilyn gwersi Addysg Gorfforol. Bydd ystafelloedd newid yn cael eu sychu ar ddiwedd pob gwersi yn yr un ffordd ag y mae ystafelloedd dosbarth ar hyn o bryd.

Sylwer mai un eithriad i hyn yw y bydd disgyblion yn cael gwisgo citiau Addysg Gorfforol ar ddiwrnodau cyfoethogi (dydd Mercher wythnos B), ond dim ond os ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi sy'n gofyn iddynt wisgo citiau Addysg Gorfforol. Cynhelir yr holl weithgareddau cyfoethogi yn y prynhawn felly nid yw hylendid yn bryder, ac ni fydd y cyfleusterau newid sydd gennym yn yr ysgol yn gallu darparu ar gyfer y nifer fawr o ddisgyblion a fydd angen defnyddio eu citiau Addysg Gorfforol ar ddiwrnodau cyfoethogi.

Am bob diwrnod arall, bydd disgyblion yn gwisgo eu gwisg ysgol arferol yn ystod y diwrnod ysgol a bydd gofyn iddynt gario eu gwisg ymarfer corff gyda nhw. Bydd loceri ysgol ar gael i ddisgyblion storio eu citiau a/neu unrhyw eitemau eraill o offer os ydynt yn dymuno cael un. Byddwn yn rhannu gyda disgyblion fanylion sut i gael mynediad i locer ar ôl y Pasg. **Bydd gan ddisgyblion yr opsiwn o wisgo gwisg haf crys polo gwyrdd yn lle'r crys gwyn a thei yn nhyrnor yr haf.**

Cynhyrchiad Ysgol a digwyddiadau eraill.

Ym mis Chwefror cynhaliom ni fersiwn diwygiedig Covid o Eisteddfod yr ysgol, y gyntaf ers dwy flynedd. Rhaid diolch i Miss Donna George (Pennaeth y Gymraeg) am trefnu'r Eisteddfod. Roeddem hefyd wrth ein bodd ym mis Mawrth i allu bwrw ymlaen â'n cynhyrchiad ysgol o 'We Will Rock You' dros dair noson. Rhaid diolch yn fawr iawn i'r holl gast a chriw a weithiodd mor galed dros fisoedd i gyflawni'r prosiect hwn. Rhaid diolch yn arbennig i Miss Mandy Morris (Pennaeth Cerdd a Drama) a Mrs Sioned Page-Jones (Pennaeth Celfyddydau Mynegiannol) am eu hegni a'u penderfyniad drwy gydol yr holl broses. Hefyd, roeddem yn falch o groesawu cyn-fyfyrrwyr a'u teuluoedd yn ôl i'r ysgol

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com



ITT Programme
Partner School



yn ddiweddar ar gyfer y noson wobrwyo, y gyntaf ers tair blynedd. Mae'r holl ddigwyddiadau hyn, ynghyd â'r llu o weithgareddau eraill wedi rhoi'r ymdeimlad gwirioneddol inni ein bod 'ar y ffordd yn ôl' fel ysgol. Rwy'n falch iawn ein bod yn gallu cynnig y cyfleoedd hyn i'n disgyblion unwaith eto.

Adolygu arholiadau TGAU.

Un ffocws allweddol i ni fel ysgol dros yr wythnosau nesaf fydd sicrhau bod ein disgyblion arholiadau TGAU yn cael eu cefnogi'n llawn wrth iddynt baratoi ar gyfer eu harholiadau. Os ydych yn rhiant neu'n ofalwr i ddisgybl ym mlynnyddoedd 10 neu 11, plis gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn/plant yn mynychu'r holl ddsbarthiadau adolygu rydym yn eu cynnal rhwng nawr a'r arholiadau. Ceir manylion ar ein gwefan neu drwy ddilyn y ddolen isod.

[Amserlen](#)

Dyddiadau allweddol ar gyfer yr hanner tymor nesaf.

Dydd Gwener Ebrill 8fed – Diwedd I tymor gwanwyn
Dydd Llun Ebrill 25ain - Diwrnod HMS Sir-gyfan - dim ysgol i ddisgyblion
Dydd Mawrth Ebrill 26ain – Disgyblion yn nol mewn ysgol
Dydd Llun Mai 2ail - Gŵyl Banc Calan Mai.
Dydd Llun Mai 16eg - Arholiadau TGAU yn dechrau
Dydd Mawrth Mai 24ain - Diwrnod Iechyd Blwyddyn 8
Dydd Llun Mai 30ain – Dechrau gwyliau hanner tymor y Sulgwyn
Dydd Llun Mehefin 6ed - Disgyblion yn nol mewn ysgol

Yn dilyn hanner tymor y Sulgwyn, bydd Blwyddyn 9 yn cychwyn ar eu hamserlen opsiynau TGAU.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Dymunwn Pasg diogel a phleserus i chi.

Paul Edwards